**Atodiad 2**

**CTS - Addysg i Oedolion**

<u>Disgrifiwch eich profiad hyd yn hyn - trosolwg</u>

- Sefydlu Grŵp Llywio Taith ar gyfer y sector, dan gadeiryddiaeth Rob Humphries. Mae ganddo ystod eang o randdeiliaid (TUC, Chwarae Teg, Canolfan Gymraeg Genedlaethol, ac ati)
- Rydym wedi cefnogi nifer o sefydliadau i ddatblygu ceisiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Codi ymwybyddiaeth ar draws y sector ACL i ennyn diddordeb yn y rhaglen.
- Cyswllt â sefydliadau a rhwydweithiau rhyngwladol i godi ymwybyddiaeth a hwyluso partneriaethau.
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwr rhaglen Taith i sicrhau ein bod yn cefnogi'r sector mewn ffordd ystyrlon.

<u>Canolbwyntio ar heriau a chyflawniadau</u>

Cyflawniadau

- Mae gordanysgrifio i Lwybr 1 yn gyflawniad allweddol. Mae hyn yn amlygu awydd y sector i ymgysylltu â'r rhaglen. Nawr, mae angen i ni bennu pa mor ystyrlon fu'r ceisiadau i asesu ansawdd cyffredinol y ceisiadau.
- Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith ac ALW yn gweithio ar y cyd ledled Cymru i gefnogi'r rhaglen. Roedd graddau'r cyfatebolrwydd yn dda iawn.

Heriau

- Roedd lefel y gefnogaeth oedd ei hangen yn funud olaf yn aml iawn. Mae hyn i'w ddisgwyl, yn enwedig yn y rownd gyntaf.
- Mewn rhai achosion mae gorgyffwrdd i ba sector y dylai'r ymgeiswyr fod yn gwneud cais amdano. Nid yw hyn yn rhwystr fel y cyfryw ond mae gweithgareddau rhai ymgeiswyr yn fwy addas ar gyfer ffrydiau eraill, AB neu Ieuenctid er enghraifft.

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol/meysydd gwaith.

- Nodi pa wersi y gellir eu dysgu o brofiad Llwybr 1 i wella'r broses ymgeisio ar gyfer Llwybr 2.
- Nodi'r bylchau mewn cyrhaeddiad - nad yw rhanddeiliaid a sefydliadau o fewn y sector yn ymwybodol o Taith eto, a sut y gellid eu cefnogi.
- Trefnu digwyddiadau cysylltu partneriaid â rhwydweithiau Ewropeaidd a thu hwnt.
- Gweithio gyda CTSau eraill i ddeall unrhyw heriau y maent wedi'u cael a rhannu arfer gorau.